# Deddf Trawsblannu Dynol (Cymru) 2013

**2013 dccc 5**

*Cyffredinol*

## 20 Gorchmynion a rheoliadau

(1) Mae pŵer i wneud gorchymyn neu reoliadau o dan y Ddeddf hon yn cynnwys pŵer i wneud unrhyw ddarpariaeth gysylltiedig, ganlyniadol, drosiannol neu atodol y mae Gweinidogion Cymru yn barnu ei bod yn briodol.

(2) Mae pŵer Gweinidogion Cymru i wneud gorchymyn neu reoliadau o dan y Ddeddf hon yn arferadwy drwy offeryn statudol.

(3) Cyn gwneud gorchymyn neu reoliadau o dan y Ddeddf hon rhaid i Weinidogion Cymru gynnal unrhyw ymgynghoriad cyhoeddus sy'n briodol yn eu barn hwy.

(4) Ni chaniateir gwneud offeryn statudol sy'n cynnwys gorchymyn neu reoliadau o dan y Ddeddf hon onid oes drafft o'r offeryn wedi ei osod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru ac wedi ei gymeradwyo drwy benderfyniad ganddo.

(5) Nid yw is-adrannau (3) a (4) yn gymwys i orchmynion o dan adran 21 (cychwyn).

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 20 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 21(1)**

**I2** A. 20 mewn grym ar 12.9.2015 gan O.S. 2015/1679, **ergl. 2(c)**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Trawsblannu Dynol (Cymru) 2013, Adran 20.